

Cofnodion Cyfarfod 12ed o Dachwedd 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown	Iestyn Harris
Lena Ashley	Louise Hughes
Pat Jones	George Smith
Sarah Riley	Bethan Jones
Daniel Williams	Sian Gwenllian
Wynne Barton Swyddog Ariannol	

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

- 1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Tachwedd y Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Daniel Williams a'i feibion am baratoi y Cloc ar gyfer y Gwasanaeth Coffa ar ddydd Sul y Cofio.
- 1.2 Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi bod yn cerdded y stryd a'r arolygydd priffyrdd ac wedi dod o hyd i rai lleoliadau sydd angen eu cynnal; mae'r gwaith i'r palmant ger y Fic wedi ei gwblhau.

Ymddiheuriadau Nerys John, Hywel V Jones

2.0 DATGAN DIDDORDEB

- 2.1 Cyflwynwyd ffurflen hysysiad o fuddiant personol gan Y Cadeirydd Kenneth Brown, Cynghoryddion Iestyn Harris a Daniel Williams i eitem 5.0 a'r Cynghorydd Sian Gwenllian ar gyfer eitem 9.3.

3.0 COFNODION

- 3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 8fed o Hydref 2013. Gwnaethpwyd dau newid i'r Cofnodion.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion wedi'r newidiadau yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

- 4.1 **Golau Stryd Cerrig yr Afon** – Cyflwynwyd lythyr oddi wrth Cerrig yr Afon yn datgan eu siom nad oedd y Cyngor yn fodlon i ymgymryd a chostau codi dwy golofn golau stryd. Cyflwynwyd hefyd amcanbris codi'r ddwy golofn. Cafwyd drafodaeth ynglyn a'r mater a phenderfynwyd y byddai y cynig o £2,000 yn yn unig parhau.

Y Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer y lle delfrydol i leoli un lamp.

- 4.2 **Cerdded a Darganfod** – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a Gareth Roberts. Hysbyswyd yr aelodau bod y Cynghorydd Nerys John fel rhan o'r grŵp hwn yn barod i helpu a'r ceisiadau am gymorth ariannol, roedd rhai o'r pentref wedi ymuno a'r grŵp hefyd. Cadarnhawyd bod angen arian ar gyfer printio taflenni yn unig.
- 4.3 **Llwybr Rowen** – cyflwynwyd adroddiad oddi wrth Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd nad oeddynt yn barod i fabwysiadu rhan o Lwybr Rowen oherwydd nad oedd yn arwain i bwynt penodol. Trafodwyd y mater a daethpwyd i benderfyniad nad oedd hyn yn dderbyniol oherwydd bod esiamplau eraill yn bodoli o lwyrau nad oedd yn arwain i bwynt penodol.

Dywedodd Y Cynhorydd Sian Gwenllian bod Grant Cymunedol o £1000 i gael oddi wrth Watkin Jones ar gyfer prosiectau Cymunedol.

Manylion i'w hanfon at y clerch.

Y clerch i anfon gair at yr Adran berthnasol i hysbysu bod y cyhoedd yn cerdded at waelod y cae i'r "viewing Point" i edrych ar yr olygfa felly roedd hyn yn tystio bod y llwybr yn arwain i fan penodol.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

- 5.1 Cadarnhawyd fod y Pensaer wedi bod mewn cysylltiad a'r adeiladwr a bod y peiriannydd a osodwyd y sustem diogelwch tân heb fod yn gymwys. Roedd y peiriannydd wedi ei gyflogi gan yr adeiladwr ac felly dylai'r gwaith o wneud yn iawn y gwaith diogelwch tân fod o gyfrifoldeb yr adeiladwr. Y Pwyllgor rheoli'r neuadd yn disgwyl cadarnhad bydd yr adeiladwr yn gyfrifol am y gost yn fuan.
- 5.2 Mae gwaith paentio ar rannau o'r neuadd.

Penderfynwyd i ofyn am bris gan gontractwr lleol ac os bydd yn rhesymol y Cadeirydd Kenneth Brown a'r Cynghorydd Daniel Williams i wneud penderfyniad i symud ymlaen a'r gwaith rhag dod ar mater yn ol i'r cyngor ac amser yn brin i cwblhau y gwaith gyda gweithgareddau'r Nadolig yn agosau.

- 5.3 Trafodwyd yn fras dyfodol Pwyllgor Rheoli'r Neuadd; unai creu cwmni neu corff annibynnol y neuadd neu rheoli'r neuadd o fewn corff y cyngor. Penderfynwyd i ystyried y mater hwn o fewn y tri mis nesaf.
- 5.4 Ystyriwyd sut gellir gyflwyno llinellau cwrt badminton ar lawr y Neuadd heb iddynt wisgo i ffwrdd, nid yw paentio llinellau yn briodol, roedd y Cynghorydd Daniel Williams yn barod i arbrofi gyda tâp arbennig ac adrodd yn ol i'r cyngor os fydd y tâp yn llwyddiannus.
- 5.5 Mae parcio yn nhalcen y neuadd yn achosi pryderon; penderfynwyd am y tro i osod arwydd yno i hysbysu mai defnyddwyr y neuadd yn unig sydd a hawl i barcio, os na fydd hyn yn llwyddo yna bydd angen ail edrych ar sut i ddatrys y sefyllfa.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

- 6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Hydref.
- 6.2 Rhoddodd y Swyddog Ariannol gyngor ynglyn a chadw gormod o arian yn y cyfrif, dywedodd ei fod o farn y dylid y Cyngor glustnodi'r arian ar gyfer prosiectau cymunedol. Penderfynwyd clustnodi £9K ar gyfer prosiectau pentrefol.

7.0 GOHEBIAETH

- 7.1 "War Memorial Trust" – gohebiaeth yn hysbysu bod cymorth ariannol i gael ar gyfer gwaith cynnal ar golofnau coffadwriaeth. Fe gyflwynwyd yr ohebiaeth i'r Cynghorydd Daniel Williams er mwyn iddo wneud fwy o ymchwil.
- 7.2 Cyngor Gwynedd/Cyngor Ynys Môn – Cynllun Datblygu LLeol ar y Cyd, Seminar Safleoedd Tai Posib. Nid oedd tir o fewn y Felinheli wedi ei glustnodi felly nid oedd angen i neb cynrhychioli y Cyngor yn y Seminar. Bydd y Cynghorydd Sian Gwenllian yn mynychu fel Cynghorydd Sir a bydd yn gallu adrodd yn ol wedi'r cyfarfod.
- 7.3 Gorchymyn Gwyo Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Troed Rhif 10 yng Nghymuned Y Felinheli) Cyngor Gwynedd 2013 – Gwybodaeth yn unig.
- 7.4 Adroddiad Blynyddol PEG – Gwybodaeth yn unig.
- 7.5 Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd – Gwahoddiad i fynychu.
- 7.6 Llythyr *Cefnogi* gan Aled Job – llythyr yn gwneud cais am gymorth ariannol , cynghori i anfon cais swyddogol i fewn erbyn diwedd y flwyddyn.
- 7.6 Llythyr Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – cynllun am arian ar gyfer arian at brosiectau cymunedol; yn anffodus nid yw'r Cyngor yn gymwys.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

- 8.1 Arweinwyd y gwasanaeth coffa eleni gan y Parch Jeffrey Hughes o Gaernarfon, mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch iddo a gofynwyd i'r Clerc anfon gair o ddiolch.
- 8.2 Gan bod Gwasanaeth y Coffa wedi bod am eleni byddai'r is-bwyllgor y cloc yn symud ymlaen i gael prisiau am y gwaith cynnal.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

- 9.1 C13/1013/20/LL – Cais ol-weithredol i gadw estyniad i gwrtil 26 Dwylan Tai Gwelfor Y Felinheli - **Dim Gwrthwynebiad.**

- 9.2 C13/1122/20/LL – Tynnu amodau 7 & 8 o ganiatad Cynllunio C98A/0196/20/LL er mwyn defnyddio eiddo ar gyfer defnydd preswyl – Quayside Lodge Y Felinheli LL56 4XA - **Dim Gwrthwynebiad.**
- 9.3 C13/1091/20/LL - Codi tŷ annedd trillawr – Tir 2 Trem y Foel Y Felinheli LL56 4UZ – **Gwrthwynebu ar sail bod mwynderau lleol yn cael eu colli, Gorr ddatblygiad a’r datblygiad ddim yn gweddu i gymeriad yr ardal.**

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

- 10.1 Y Fynwent wedi derbyn torriad ychwanegol.
- 10.2 Angen gosod y rheolau newydd o fewn yr hysbysfwrdd er mwyn i bawb fod yn hysbys ohonnynt.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

- 11.1 Problemau parcio yn parhau – angen dyblygu rhybuddion er mwyn iddynt fod yn barod i’w cael eu gosod ar y cerbydau sydd yn rhwystro mynediad.
- 11.2 Y Cadeirydd Kenneth Brown a’r Cynghorydd Daniel Williams am gysylltu a’r ymgynghorwr tirlun ynglyn a Safle Moriah.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

- 12.1 Dywedodd y Cynghorydd George Smith fod cynsail wedi ei sefydlu drwy fabwysiadu llwybr nad yw yn arwain at le penodol sef Llwybr 10 sydd bellach wedi ei wyro.
- 12.2 Gwaith wedi ei wneud i greu “boardwalk” ar Llwybr 7 Llanddeiniolen.

13.0 CYNGHORODD SIR

- 13.1 Gweler Atodiad A.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:15 yn yr hwyr.

Llofnod: Dyddiad:.....

Atodiad A

1)Chwech tŷ newydd ger Y Wern: mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar fin cyflwyno cais cynllunio ar gyfer codi 4 tŷ 2 lofft a 2 fyngalo ar y tir rhwng Y Wern a Tan y Maes. Cafodd trigolion lleol gyfle i weld y cynlluniau mewn cyfarfod yn yr ysgol wedi ei drefnu gan CCG. Tai ar rent fydd rhain. Mae CCG yn disgwyl cadarnhad am grant gan Lywodraeth Cymru ac fe fyddan nhw yn ariannu gweddill cost y datblygiad. Felinheli fydd y pentref cyntaf yn Arfon i gael tai 'cyngor' newydd ers blynnyddoedd maith. Rwyf wedi bod yn ymgyrchu am fwy o dai i bobl leol ers cael fy ethol fel eich cynghorydd. Mae gan Tai Eryri 12 tŷ rhent cymdeithasol newydd yn Ger Y Nant hefyd. Am fwy o wybodaeth am y cynllun newydd ger Y Wern, ffoniwch CCG ar 0300 123 8084

2)Dyfodol y Doc: cefais gyfarfod efo perchennog newydd y Doc sef Gareth Cleaver o Ynys Môn. Mae wedi cychwyn ar y gwaith o dacluso'r lle ac mae'n bwriadu cyflwyno cais cynllunio i newid y swyddfydd yn gaffi a thŷ bwyta ar gyfer 150 o bobl. Mae hefyd yn gobeithio datblygu'r Doc Sych ar gyfer trwshio cychod. Rwy'n gobeithio cydweithio gydag ef er mwyn gweld swyddi lleol yn cael eu creu.

3)Materion ffyrdd tu allan i Ger Y Nant : Rwyf yn pwysu ar y Cyngor i fwrw mlaen efo'r gwaith a gytunwyd arno sef symud yr arwyddion 30mph yn nes at Bethel; rhoi strivedi i arafu traffig ar y ffordd cyn y tro wrth ddod o Bethel; i wneud gwelliannau i'r tir ger y tro a rhoi mesurau tawelu traffig fel 'llwyfan' ger mynedfa llwybr Cerrig yr Afon. Nid yw'r oedi yn dderbyniol.

5)Llwybr drwy'r Faenol: mae trafodaethau yn parhau er mwyn dynodi rhan o Lwybr Arfordir Cymru drwy'r Marina a thrwy Stad y Faenol i Dreborth. Rwyf yn trafod y ffordd ymlaen efo trigolion lleol a swyddogion y Cyngor.

6)Mae gwefan y pentref www.felinheli.org yn parhau yn boblogaidd. Cofiwch anfon eich llythiau a manylion am ddiwyddiadau rhwng rŵan a'r Nadolig i post@felinheli.org

7)Mae 2 lyfr diddorol iawn am y pentre wedi eu cyhoeddi. Anrhegion Nadolig delfrydol! Llongyfarchiadau mawr i Len Williams am ei lyfr sydd ar gael yn y siop. Mae'r llall, gan Reg Chambers Jones ar gael yn lleol neu drwy <http://bridgebooks.co.uk/>.

8)Tawelu traffig yn Aberpwll: Mae'r Gorchymyn yn dod i rym yn fuan gyda arwyddion 40 mph o Seilo i waelod Nant Y Garth.

9)Llongyfarchiadau i Glwb Pêl-droed Felinheli ar eu cwt panad newydd yn Seilo. Cofiwch alw heibio i gefnogi'r tîm. Llongyfarchiadau hefyd i Bwyllgor Gŵyl y Felin am arddangosfa Tan Gwyllt gwych. A diolch i'r Cyngor Cymuned am drefnu Sul y Cofio unwaith eto eleni.

10)Llwybr cyhoeddus Stepiau Cei: mae Cyngor Gwynedd yn monitro yn ofalus ac os na fydd unrhyw symudiad a'u bod yn hapus nad oes perygl i'r cyhoedd fe fydd y llwybr yn cael ei ail-agor yn y Gwanwyn. Rhan o'r ffordd i Hen Gei Llechi sydd ar gau: mae'r Cyngor mewn cysylltiad gyda'r perchnogion tir preifat uwchlaw ac yn dal i gadw golwg o safbwynt risgiau i'r cyhoedd.

11)Arwyddion ger yr Half Way: cefais lawer o gwynion am natur a maint yr arwyddion newydd. Mae cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd a bydd modd i chi gyd gyflwyno eich sylwadau fel rhan o'r broses honno drwy cynllunio@gwynedd.gov.uk

12)Cofiwch fod Felin Gylchu ar agor Gwener-Sadwrn ac yn falch iawn o gael eich nwyddau ail-law. Mae'r Felin Sgwrsio hefyd yn brysur iawn. Mae trafod yn digwydd i weld sut i nodi pen-blwydd y ganolfan yn 5 oed flwyddyn nesaf.

13) Ceir wedi eu parcio ar Ffordd Caernarfon : rwyf wedi derbyn llawer o gwynion am hyn. Gofynnir yn garedig i chi beidio parcio ger y tro sydd yn beryglus i yrwyr eraill.